



Rhestr Wirio Arferion Llwyddiannus ar gyfer rhannu gyda ysgolion / sefydliadau:

Grant Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar

Ffocws ar:

- ✓ Sicrhau bod arweinydd dynodedig wedi'i neilltuo i arwain y GDD;
- ✓ Peidio â drysu rhwng difreintedd a gallu isel;
- ✓ Cynnig dysgu proffesiynol i staff ar ddatblygu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu plant;
- ✓ Datblygu dulliau llythrennedd a rhifedd cynnar;
- ✓ Datblygu ymgysylltiad rhieni;
- ✓ Cefnogi dysgu cymdeithasol ac emosiynol disgyblion;
- ✓ Annog disgyblion i ddod yn ddysgwyr annibynnol a gwydn;
- ✓ Sicrhau bod staff cymorth wedi'u hyfforddi i'r radd uchaf;
- ✓ Gweledigaeth a diwylliant clir, sy'n gynhwysol ac yn llawn dyhead.

GDD (PYD)

- ✓ Sicrhau bod arweinydd dynodedig wedi'i neilltuo i arwain y GDD;
- ✓ Peidio â drysu rhwng difreintedd a gallu isel;
- ✓ Y GDD i'w ddefnyddio i gefnogi pob dysgwr cymwys, gan gynnwys disgyblion MATH;
- ✓ Tystiolaeth o olrhain disgyblion, adnabod tangyflawniad a defnyddio strategaethau ymyrraeth cadarn;
- ✓ Defnyddio ymchwil a thystiolaeth mewn perthynas â strategaethau i gael effaith gadarnhaol;
- ✓ Rhoi blaenoriaeth uchel i ddysgu ac addysgu, adborth o safon uchel a metawybyddiaeth;
- ✓ Sicrhau bod staff cymorth wedi'u hyfforddi i'r radd uchaf a'u bod yn deall yn glir y ddarpariaeth maent yn arwain arni yn yr adnodd cynllunio grant;
- ✓ Gwella ansawdd yr adborth i waith dysgwyr a'u paratoi ar gyfer 'sut i ddysgu';
- ✓ Sicrhau bod gan bob aelod staff berthynas gadarnhaol gyda dysgwyr a'u bod yn wybodus am y grant;
- ✓ Rheoli perfformiad cadarn a rhaglen dysgu proffesiynol wedi'i chynllunio ar gyfer staff er mwyn codi cyflawniad dysgwyr difreintiedig;
- ✓ O leiaf 60% o GDD ysgolion uwchradd i'w fuddsoddi yn nisgyblion cyfnod allweddol 3;
- ✓ Targedau clir yn y CDY sy'n blaenoriaethu 'codi cyflawniad' pob dysgwr;
- ✓ Cynnwys asiantaethau partner ac ymgysylltu â hwy;
- ✓ Llywodraethwr Cyswllt a enwir ar gyfer y GDD, a chyfarfodydd rheolaidd gydag ef/hi;
- ✓ Monitro ymyraethau er sicrhau y cânt yr effaith ddisgwyliedig;
- ✓ Datblygu systemau a phrosesau effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion;
- ✓ Rhoi mwy o bwyslais ar ddefnyddio'r GDD i wella presenoldeb disgyblion hPYD;
- ✓ Gwella, a rhoi mwy o bwyslais ar, sut y defnyddir y GDD i wella ymgysylltiad disgyblion hPYD er mwyn lleihau nifer yr achosion o waharddiadau tymor penodol;
- ✓ Defnyddio amryw o ffynonellau i edrych ar ymyraethau sydd â thystiolaeth dda i'w cefnogi, er enghraifft, y *Sutton Trust Toolkit*, canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion: Beth sydd wir yn gweithio?;
- ✓ Gweledigaeth a diwylliant clir, sy'n gynhwysol ac yn llawn dyhead.

GDD (PMG)

- ✓ Arweinydd PMG dynodedig yn yr ysgol sydd, os oes modd, yn aelod o'r uwch dîm rheoli sy'n gyfrifol am weithredu strategaeth PMG yr ysgol, a llywodraethwr dynodedig sydd â dealltwriaeth gadarn o anghenion PMG;
- ✓ Cydymffurfio â threfniadau adrodd sydd i gyfrif am ddefnydd y grant clwstwr drwy gyfrwng y consortia rhanbarthol;
- ✓ Sicrhau bod gweithgareddau a ariennir gan y grant yn rhai cynaliadwy, ac y gellir eu darparu i fodloni allbynnau a deilliannau cytûn;
- ✓ Rhaid i brosiectau roi sylw i 2 o'r canlynol: codi cyrhaeddiad; gwella presenoldeb; lleihau nifer gwaharddiadau; ffocws ar bontio ar draws pob cyfnod allweddol; gwella gwybodaeth a dealltwriaeth staff ysgolion o ymlyniad ac arfer sy'n wybodus am drawma, a hynny drwy ddull ysgol gyfan; hybu ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymroi i ragoriaeth, tegwch a llesiant; datblygu, a defnyddio, systemau diagnostig ac olrhain priodol; hybu, annog a datblygu llais y dysgwyr ym mhob lleoliad; datblygu ymgysylltu â gofalwyr maeth a theuluoedd;
- ✓ Cefnogi Dull sy'n Canolbwyntio ar Unigolion drwy'r GDD;
- ✓ Cwblhau'r Canllawiau Arfarnu GDD PMG i ysgolion.